



Gwasanaethau Anabledd

Gwybodaeth i Ddarpar Fyfyrrwyr

- Eich anghenion fel myfyriwr
- Tîm Ymgynghorol
 - ◊ Cynghorwyr Anabledd
 - ◊ *Cynghorwyr ADP
 - ◊ Cynghorwyr Iechyd Meddwl
- Dod i'n gweld cyn eich gwrs
- Gofynion gofal personol
- Clirio

*Gwahaniaeth Dysgu Penodol e.e. dyslecsia, dyspracsia, ADHD

E-bost: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 383620 / 382032

Mae'r daflen ar gael mewn gwahanol fformatau

Dywedwch wrthym beth yw eich anghenion fel myfyriwr fel y gallwn roi'r gefnogaeth iawn i chi. Rydym yn cysylltu â holl ddarpar fyfyrwyr sy'n ticio'r bocs anabledd ar eu ffurflen UCAS, neu ffurflen gais arall, gyda gwybodaeth am ddarpariaeth ym Mhrifysgol Bangor, yn ogystal â Lwfansau Myfyrwyr Anabl ([LMA](#)).

Cyn i'ch cwrs ddechrau, byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen gofrestru ar-lein i'r Gwasanaethau Anabledd a darparu [tystiolaeth ddogfennol](#) i ni. Gweler ein [polisi cyfrinachedd](#) am wybodaeth ar y ffordd rydym yn rhannu'r wybodaeth hon unwaith y byddwn wedi cael eich caniatâd ysgrifenedig.

Byddwn yn llunio [Cynllun Cefnogi Dysgu Personol](#) i sicrhau y bydd addasiadau rhesymol ac unrhyw ofynion cefnogaeth yn cael eu cyflawni. Yn ddelfrydol, byddwn yn gwneud hyn mewn pryd ar gyfer eich wythnos gyntaf o ddarlithoedd, ond bydd yn dibynnu pa mor gyflym rydym yn derbyn y dystiolaeth ddogfennol berthnasol gennych. Y prif beth yw eich bod yn cadw mewn cysylltiad â ni - fel hyn gallwn sicrhau bod eich cefnogaeth ar gael cyn gynted â phosibl.

Tîm Ymgynghorol

Mae ein tîm ymgynghorol arbenigol, yn cynnwys cynghorwyr anabledd, cynghorwyr iechyd meddwl a chynghorwyr SpLD, yn gallu rhoi gwybodaeth a chynghor cyn dechrau eich cwrs. Os oes gennych gwestiynau am y cwrs ei hun, yn cynnwys safonau cymhwysedd, gellwch gysylltu â **Thiwtor Derbyn** neu **Diwtor Anabledd** yr ysgol academiaidd.

Dod i'n gweld cyn eich gwrs

Er bod Bangor yn gampws bychan a chyfeillgar ac y bydd eich llety'n bur agos at adeiladau a chyfleusterau'r brifysgol, eto mae tipyn o elltydd serth yma. Mae ein harweiniad 'Mynd o gwmpas Bangor' www.bangor.ac.uk/student-services/guide/index.php yn cynnwys mapiau a fideos i helpu myfyrwyr i gael hyd i'w ffordd o gwmpas y campws a gweld lle mae mannau parcio i ddeiliaid bathodyn glas, lifftiau, etc.

Os ydych yn wynebu rhwystrau o ran symud o gwmpas, byddem yn eich cynghori i ymweld ac asesu'r sefyllfa drosoch eich hun. Mae Cynghorwyr Anabledd yn ddigon parod i gyfarfod â chi a gwneud trefniadau i fynd â chi o gwmpas.

Gofynion gofal personol

Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl os byddwch angen cefnogaeth gyda gofal personol. Nid yw'r brifysgol yn darparu gofal personol neu gyllid ar gyfer gofal personol, a gall trefniadau gymryd amser hir i'w gwneud. Felly mae'n bwysig eich bod yn dechrau gwneud cynlluniau cyn gynted ag y derbyniwch eich cynnig (hyd yn oed os mai un amodol ydyw).

Clirio

Os ydych yn ystyried dod i Fangor drwy'r drefn Glirio, rhowch wybod am eich amgylchiadau i'r Llinell Gymorth Clirio neu i'r tiwtor derbyniadau yn yr adran, ac yna cysylltwch â'r [Gwasanaethau Anabledd](#) i drafod eich anghenion yn fanwl.

